**Crynodeb o Gofnodion y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth (AAP)**
**Cyfarfod 1** − 24 Mehefin 2016
Pafiliwn Llywodraeth Cymru (LlC), Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Powys.

## Yn bresennol

Lionel Walford – Cadeirydd
Peter Rees – Aelod Annibynnol
Steve Hughson – Aelod Annibynnol
Darren Williams – Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
John Davies – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Daryl Williams – UNITE
Ivan Monckton – UNITE

Kim Howell – Geldards
Helen Snow – Geldards

Kevin Austin – Llywodraeth Cymru
Paula Whitfield – Llywodraeth Cymru
Adriana Kiss – Llywodraeth Cymru
Stuart Neil – Llywodraeth Cymru
Medwyn Roberts – Llywodraeth Cymru

## Ymddiheuriadau

Gary Haggaty – Llywodraeth Cymru

**Eitem 1 – Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y Panel. Cyflwynodd aelodau'r Panel eu hunain a nodwyd yr ymddiheuriadau.

**Eitem 2 – Gwrthdaro buddiannau.**

Dywedodd rhai o aelodau'r Panel eu bod yn dod o deuluoedd ffermio, ac roedd un aelod yn ymddiriedolwr gyda LANTRA.

**Eitem 3 – Cofnodion cyfarfodydd**

Cynigiodd y Cadeirydd y dylai fod gan y Panel ei wefan ei hun lle y byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi, gan ddangos pa faterion a fyddai wedi'u trafod, y penderfyniadau a fyddai wedi'u gwneud a'r camau y byddai angen eu cymryd.
Roedd gofyn anfon y cofnodion at Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig er gwybodaeth iddi ymhen 30 diwrnod i'r cyfarfod.
Cytunwyd y bydau copïau caled o'r holl bapurau ar gyfer y cyfarfod yn cael eu hanfon at yr aelodau.

**Eitem 4 – Datblygu'r Panel**
Cyflwynwyd papur i'r Panel yn manylu ar y gwaith o'i ddatblygu. Roedd yn cynnwys hanes y Ddeddf ar ôl diddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr, sefydlu'r Panel, ei swyddogaethau, swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Panel, y darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ar gyflogau amaethyddol, a'r cymorth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r Panel.

Gofynnwyd cwestiwn am y Cyflog Byw Cenedlaethol ac a oedd gweithwyr o dramor/gweithwyr cynhaeaf yn dod o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn. Dywedwyd y byddai pob gweithiwr amaethyddol yn cael ei dalu yn unol â'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y câi aelodau'r Panel hawlio'r costau a fyddai'n gysylltiedig â dod i'r cyfarfodydd.

**Eitem 5 – Materion Cyfreithiol**
Trafodwyd y cyfrifoldeb cyfreithiol sydd ar y Panel i gynnig gorchmynion drafft ar gyflogau i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru. Byddai cynghorwyr cyfreithiol y Panel yn ei helpu i greu'r gorchmynion arfaethedig. Trafododd y Panel rai agweddau megis darpariaethau ar daliadau goramser, tâl gwyliau, gweithio'n rhan-amser. Cytunwyd i ymchwilio i'r materion hynny cyn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 6 – Yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant**
Gofynnodd y Cadeirydd i'r Panel enwebu pobl briodol i fod yn aelodau o'r Is-bwyllgor. Gofynnwyd i FUW, NFU ac UNITE enwebu aelodau i'w cynrychioli nhw hefyd.

Awgrymwyd y gallai'r Is-bwyllgor gysylltu â Cyswllt Ffermio i drafod datblygu Cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus.

**Eitem 7 – Y Weledigaeth ar gyfer Amaethyddiaeth**
Cafwyd cyflwyniad am y weledigaeth ar gyfer amaethyddiaeth ac am y ffordd o weithio ar sail partneriaethau. Cyfeiriwyd at adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' a ganfu fod angen bod yn fwy proffesiynol a mwy o weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant amaethyddiaeth. Roedd y Panel yn cytuno bod angen i'r diwydiant gydweithio'n agosach ar bennu strategaeth a chyfeiriad. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu dull gweithredu lle mae pobl yn gweithio mewn partneriaeth.

**Item 8 – Gwaith y Panel yn y dyfodol**
Cyflwynodd y Cadeirydd yr amserlen ar gyfer gwneud y Gorchymyn nesaf ar Gyflogau Amaethyddol a chytunodd y Panel ar yr amserlen honno.

**Eitem 9**
Cyflwynwyd papur ac ynddo ystadegau amaethyddol manwl. Teimlai'r Panel nad oedd yr ystadegau'n ymdrin â chylch gwaith llawn y Panel am ei fod yn canolbwyntio ar ffermio. Bydd cais yn cael ei wneud am ragor o wybodaeth am yr agweddau ehangach, gan gynnwys gwybodaeth oddi wrth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a gwaith a wnaed gan y Comisiwn Cyflogau Isel.

**Eitem 10**
Pennwyd dyddiad y cyfarfod nesaf. Diolchodd y Cadeirydd i'r Panel a'r gwesteion am ddod i’r cyfarfod.